FFÔN/TEL: 01492 642800
FFACS/FAX: 01492 642801

FFORDD NEBO
LLANRWST
LL26 0SD

# YSGOL DYFFRYN CONWY

**Pennaeth / Head : Miss Elan Davies**
e-bost/e-mail : cyff@dyffrynconwy.conwy.sch.uk
www.ysgoldyffrynconwy.org

Annwyl Riant\Warcheidwad a Disgybl,

Yn dilyn ein hymgynghoriad diweddar â rhieni, disgyblion a staff ynglŷn â'r wisg ysgol newydd arfaethedig, gallwn nawr gadarnhau penderfyniad y corff llywodraethu ar gyfer gwisg ysgol newydd o fis Medi 2018.

Dangosodd y broses ymgynghori dymuniad clir ymhlith rhanddeiliaid fod 'gwisg ysgol gywir yn hyrwyddo hinsawdd gadarnhaol ar gyfer dysgu ac yn codi safonau yn yr ysgol'. Bydd canlyniadau'r ymgynghoriad ar gael i'w gweld ar ein gwefan ysgol newydd maes o law.

Ar ôl i'r broses ymgynghori ddod i ben, cyfarfu'r Pwyllgor Gwisg Ysgol Newydd sy'n cynnwys Rhieni, Disgyblion, Staff a Llywodraethwyr i drafod yr argymhellion i'w cyflwyno i'r Corff Llywodraethol i'w gymeradwyo ym mis Mawrth 2018.

Wrth ystyried yr argymhellion, roedd y Corff Llywodraethol yn ymwybodol o'r pwyntiau allweddol a fynegwyd yn ystod yr ymgynghoriad fel a ganlyn:

• Fod y wisg newydd yn fforddiadwy, yn enwedig ar gyfer teuluoedd incwm isel* ynghyd â theuluoedd â llawer o blant yn mynychu Ysgol Dyffryn Conwy;

• Gwisg o ddeunydd safonol sydd a'r gallu i wrthsefyll gwisgo parhaus ac yn hawdd i ofalu amdanynt;.

• Sicrhau cysondeb yn safon y wisg o ran arddull a lliw. Sicrhau fod y wisg yn fforddiadwy ac argaeledd y wisg yn gyson a pharhaus gan gyflenwyr lleol megis Brodwaith, Ar y Gweill, Boppers, School Talk ac hefyd trwy'r ysgol; a

• Yr amserlen ar gyfer gweithredu - gydag ystyriaeth arbennig ar gyfer Blynyddoedd 11 a 13 yn 2018-19 **.

*** Bydd disgyblion sy'n derbyn Prydau Ysgol am Ddim yng Nghonwy yn dal yn gymwys i dderbyn grant gwisg ysgol yn 2018/19.**

**Y PENDERFYNIAD CYTUNEDIG AR GYFER Y WISG YSGOL NEWYDD YN YSGOL DYFFRYN CONWY**

Yng ngoleuni'r adborth gan randdeiliaid, mae'r Corff Llywodraethol wedi cytuno i fabwysiadu gwisg ysgol newydd sy'n cynnwys:

**Blynyddoedd 7-10**

Siwmper Lliw "Burgundy" gyda'r Logo YDC yn Aur
Trowsus Du/Sgert Bletiog Ddu
Crys ysgol gwyn gyda choler a botwm uchaf
Tei "Burgundy" gyda streipiau aur.

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

Cefnogwyd gan
Y Loteri Genedlaethol
trwy Gyngor Celfyddydau Cymru

Supported by
The National Lottery
through the Arts Council of Wales

Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government

**Blwyddyn 12**

Siwmper Ddu gyda logo YDC Aur
Trowsus Du/Sgert Bletiog Ddu
Crys ysgol gwyn gyda choler a botwm uchaf
Tei "Du" gyda streipiau aur.

**** Bydd y wisg newydd yn ddewisol i flwyddyn Bl11 a Bl13 ar gyfer 2018/19 yn unig.**

Bydd gofyn i bob disgybl wisgo esgidiau/bŵts du priodol (bydd mwy o wybodaeth yn cael ei rannu yn ystod y misoedd nesaf).

Edrychwn ymlaen at weithio gyda'n holl randdeiliaid yn arwain fyny at fis Medi 2018 er mwyn sicrhau trosglwyddiad esmwyth i'r wisg ysgol newydd. Mae'r Cyngor Ysgol eisoes yn ran weithredol o hyn.

Diolchwn ichi ymlaen llaw am eich cefnogaeth. Bydd rhagor o fanylion ynghylch argaeledd stoc ac enghreifftiau o'r wisg newydd yn cael ei rannu dros yr wythnosau nesaf.

Yn gywir

Roger Beech
Pennaeth Cynorthwyol

Miss Elan Davies
Pennaeth

Cyngor Celfyddydau Cymu
Arts Council of Wales

Cefnogwyd gan
Y Loteri Genedlaethol
trwy Gyngor Celfyddydau Cymru

Supported by
The National Lottery
through the Arts Council of Wales

Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government